Cofion a Llongyfarchion

Cofiwn yn ein gweddïau heddiw am David Jones (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ac wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdano a gweddïwn ei fod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Cofiwn am ei deulu hefyd a gofynnwn Iddo gysgodi drostynt hwythau.

Anfonwn ein cofion at bawb ohonoch chithau ac at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Dilys Vaughan (Saron), Mrs Eirlys Owen (Llannefydd), Mrs Mair Williams (Llansannan), Mrs Edna Evans (Llanfair), Mrs Gwenllian Jones (Henllan), ac eraill o'n plith sydd ddim am gael eu henwi. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan weddïo eich bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drosoch.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwynfor a Helen Pritchard (Llansannan) ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Dosbarth Derbyn

Bwriedir cynnal sesiynau ar-lein fydd yn gyflwyniad i Gristnogaeth i'r rhai sydd â diddordeb cael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol. Os oes gennych ddiddordeb, a wnewch chi roi eich enw i Rhodri neu Mair **erbyn diwedd mis Ebrill**, os gwelwch yn dda? Diolch i'r rhai ohonoch oedd wedi dangos diddordeb cyn i'r cyfnod clo ddod i rym – croeso i unrhyw un arall hefyd i ymuno.

Oedfa Radio Cymru

Os na allwch ymuno â ni ar *YouTube* neu os hoffech wrando ar ddwy oedfa dan ofal Rhodri bore Sul (Ebrill 25ain), gallwch wrando ar yr 'Yr Oedfa' ar Radio Cymru am 12:00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (5ed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25 Ebrill 2021

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Ymhen pythefnos bydd Etholiad Senedd Cymru yn cael ei gynnal, sy'n golygu eich bod bron yn sicr o fod wedi derbyn eich siâr o daflenni etholiadol. Sut fyddwch chi'n ymateb i'r taflenni? Eu taflu gyda'r sbwriel a'r ailgylchu neu eu darllen yn ofalus? Trwy'r taflenni hyn bydd ymgeiswyr yn ceisio'n darbwyllo wrth iddynt ddisgrifio'r wlad well y mae'r pleidiau gwleidyddol yn ei addo, dim ond i ni bleidleisio drostynt! A byddant yn defnyddio mwy nag un dechneg i geisio ennyn ein cefnogaeth. Bydd y rhai sydd yn y swydd yn barod yn naturiol yn tueddu i roi sylw i'r hyn y maent eisoes wedi ei gyflawni, tra bydd yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn eu herbyn yn ceisio'n perswadio y gallant hwy a'u plaid wneud job well. Ac wrth i ni'r etholwyr fynd i'r orsaf bleidleisio, y penderfyniad pwysig fydd – ym mhwy ydw i'n ymddiried? Ai aros hefo'r cyfarwydd sy'n apelio – yr hyn y mae gennym dystiolaeth ohono'n barod, neu ydym ni'n cael ein cyffroi wrth feddwl am fentro ar drywydd newydd ar sail addewidion?

Mae cwestiynau tebyg yn codi yn y Beibl hefyd. Ym mhwy, neu mewn beth yr ydym ni'n ymddiried? Ond yn wahanol i etholiad, nid oes rhaid i ni ddewis rhwng yr hyn y mae tystiolaeth ohono **NEU** addewidion, oherwydd, yn Iesu Grist, mae'r cyfan wedi dod at ei gilydd. Wrth gyfeirio at Grist, dywed Paul yn 2 Corinthiaid 1:20, *'Fe ydy'r un sy'n dod â'r cwbl mae Duw wedi'i addo yn wir! Dyna pam dŷn ni'n dweud "Amen" (sef "ie wir!") wrth addoli Duw – o achos y cwbl wnaeth e!'*

Os ydym am ymddiried ar sail tystiolaeth, oes unrhyw beth yn fwy eglur nag aberth Iesu ar y Groes a'i atgyfodiad? Dyma'r prawf fod Iesu wedi cyflawni ei waith, a bod cymod â Duw ar gael hyd yn oed i bechaduriaid fel ni, gan fod Mab Duw wedi talu'r pris ac wedi concro marwolaeth ar ein rhan. Ar sail hynny, mae'r Cristion yn cael ei annog i edrych ymlaen yn obeithiol at y dyfodol ar sail addewidion hyfryd Duw. *'Ac am ei fod wedi codi Iesu Grist yn ôl yn fyw dŷn ni'n edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Mae gan Dduw etifeddiaeth i'w rhannu gyda'i blant – un fydd byth yn darfod, nac yn difetha nac yn diflannu. Mae'n ei chadw ar eich cyfer chi yn y nefoedd!'* (1 Pedr 1:3-4)

Pan fyddwch yn bwrw'ch pleidlais, cofiwch roi croes mewn un blwch, ac un blwch yn unig er mwyn i'ch dewis fod yn ddilys. Yn yr un modd, wrth i ni ymateb mewn ffydd i alwad Crist, cofiwn hyn – *"Ni all neb wasanaethu dau feistr…"!* (Mathew 6:24)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

(Cofiwch, os nad yw'n bosib i chi ymuno â'r oedfaon ar fore Sul, mae modd i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. Mae'r holl oedfaon sydd wedi eu darlledu i'w cael trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com].

Sul – 25ain

- **Ysgol Sul ar-lein**
  Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. *(Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)*
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*

Llun – 26ain

- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr. Yr ail sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (*Manylion mewngofnodi: https://us02web.zoom.us/j/83243383071 neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)*

Sul – 2il

- **Ysgol Sul ar-lein**
  Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. *(Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)*
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*

Iau – 6ed

- **Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd** (Sasiwn Chwiorydd EBC) yn cael ei gynnal yn rhithiol eleni am 2.00 ar Zoom, YouTube, ac ar Facebook. (Manylion ymuno i ddilyn.) Y thema fydd 'Myfi yw'r Bugail Da'. Mae'r gwasanaeth wedi ei baratoi gan Chwiorydd Capel y Traeth, Cricieth a bydd anerchiad gan Mererid Hopwood.

Sul – 9fed

- **Ysgol Sul ar-lein**
  Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. *(Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)*
- **Oedfa ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*

Cymorth Cristnogol – cyfle i ddiolch am y brechlyn

Wrth i fwy a mwy o'n teuluoedd, ffrindiau, a chymdogion dderbyn eu brechlyn COVID, rydym yn llawenhau ac yn hynod o ddiolchgar i staff y Gwasanaeth Iechyd a'r gweithwyr allweddol sy'n parhau i arbed bywydau ar draws y Deyrnas Unedig. Ond i'r cymunedau tlotaf a mwyaf bregus ar draws y byd, ychydig o obaith sydd yna am raglen brechu fel sydd gennym yn y wlad hon. Mae'r bobl yno eisoes yn wynebu prinder dŵr, bwyd, a gofal iechyd. Mae rhai yn ddigartref. Mae rhai yn byw gydag anhwylderau iechyd eraill. Mae Cymorth Cristnogol eisoes ar waith yn y gwledydd hyn yn rhoi cymorth ymarferol i gadw pobl yn ddiogel rhag y feirws, ond fe allent wneud mwy os oes modd i ni eu helpu.

Ym mis Mai bob blwyddyn, bydd nifer ohonoch wedi arfer cymryd rhan mewn gweithgareddau i godi arian i Gymorth Cristnogol. Eleni, beth am gymryd y cyfle i ddiolch am y brechlyn trwy gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol ymhlith y cymunedau hynny fydd yn disgwyl yn hir am eu brechlyn nhw?

Mae Cymorth Cristnogol wedi ymateb i bandemig byd-eang y coronafeirws mewn 27 gwlad sydd hefyd yn dygymod â thlodi eithafol. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ar sut i gadw'n ddiogel rhag y feirws, maen nhw wedi rhoi sebon i 250,000 o bobl fregus er mwyn helpu i atal y feirws rhag ymledu, yn ogystal â rhoi pecynnau bwyd i bron i 60,000 o bobl sy'n ei chael hi'n anodd i fwydo'u teuluoedd ar ôl colli eu gwaith yn dilyn y clo.

Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n heglwysi â'u trefniadau eu hunain, ond os oes eraill ohonoch yn dymuno cyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, gallwch wneud hynny ar-lein trwy'r wefan: https://www.christianaid.org.uk/give/ways-donate/give-thanks-your-coronavirus-vaccine neu gallwch anfon siec i Mair **(cyn diwedd Mai, os gwelwch yn dda)** yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' (gyda Cymorth Cristnogol wedi ei ysgrifennu ar y cefn), ac fe wnawn ninnau dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Diolch am eich cefnogaeth.

*(Gofynnir yn garedig i **aelodau Capel Saron** roi eu cyfraniadau tuag at Gymorth Cristnogol i Emyr Rees, os gwelwch yn dda.)*